# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Keith Marsh | Adran Etholiadol: | Llandeilo Ferwallt |
|---|---|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Aelod o Gyngor Cymuned Llandeilo Ferwallt a'i bwyllgorau cysylltiedig. Cyfarfodydd PACT (Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd), a gadeiriais, yn cwmpasu eitemau a oedd yn ymwneud â'r cyngor a'r heddlu sy'n peri pryder i breswylwyr. Ni chynhaliwyd cymorthfeydd - cafwyd cyswllt â phreswylwyr wyneb yn wyneb, dros y ffôn, trwy e-bost neu lythyr. Mae eitemau yr ymdrinnir â nhw'n cynnwys anghydfodau cymdogion, atgyweiriadau priffordd etc., symud anifeiliaid marw, ymholiadau cynllunio, gweithgarwch anghyfreithlon (cyffuriau), gwaredu gwastraff, gan gynnwys ailgylchu a materion gwasanaethau cymdeithasol amrywiol.

Trwy gylchlythyr Cyngor Cymuned Llandeilo Ferwallt, rwyf wedi gallu rhoi'r diweddaraf i breswylwyr am geisiadau cynllunio, twyll, gwaith sydd ar droed gan y cyngor a gwaith mae'r cyngor wedi'i wneud.

Euthum i gyfarfodydd llywodraethwyr ysgol (cynrychiolydd AALI) yn ysgolion cyfun a chynradd Llandeilo Ferwallt. Hefyd, euthum i ddigwyddiadau a drefnwyd gan Gyngor Cymuned Llandeilo Ferwallt a'r ysgolion.

**Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Apeliadau a Dyfarniadau | 4 | / | 4 | 100 | % |
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 11 | / | 12 | 92 | % |
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 12 | / | 12 | 100 | % |
| Y cyngor | 12 | / | 15 | 80 | % |
| Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd | 6 | / | 8 | 75 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 8 | / | 8 | 100 | % |
| Grŵp Partneriaeth AoHNE | 3 | / | 4 | 75 | % |
| Pwyllgor Trwyddedu | 13 | / | 15 | 87 | % |
| Is-bwyllgor Trwyddedu | 7 | / | 7 | 100 | % |
| Is-bwyllgor Hawliau Tramwy a Thir Comin | 4 | / | 6 | 67 | % |
| Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg | 4 | / | 5 | 80 | % |
| CYFFREDINOL | 84 | / | 96 | 88 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd**

Euthum i nifer o gyfarfodydd Paneli Ymchwilio Craffu, Awdurdod Iechyd Porthladd a Phartneriaeth Tirwedd Gŵyr.

## Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwyf wedi bod yn rhan o ailosod a darparu llochesau bws yn y ward. Roedd hyn yn cynnwys ymchwilio i sut gellir prynu eitemau am bris rhatach na'r hyn a delir gan yr awdurdod hwn. Roedd hyn yn llwyddiannus, gan arbed arian o'm lwfans gwella amgylcheddol i'w wario ar eitemau eraill o fudd i'r gymuned. Yn ychwanegol, rwyf wedi ymgyrchu dros gadw'r gwasanaeth llyfrgell ym Mhennard.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

27/11/2013 - Deall Cyllideb y Cyngor
14/10/2013 - Cyn-benderfynu

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Euthum i gyfarfodydd misol Cymdeithas Cymdogaethau Abertawe. Yn ôl yr achlysur, pleidleisiais ar faterion, heb dueddfryd gwleidyddol a "chwipio", yn unol â'm canfyddiad o ofynion preswylwyr Abertawe a'm ward yn benodol.

Cadeiriais gyfarfodydd chwarterol PACT ac euthum i gyfarfodydd cwynion ynglŷn ag adrannau a chyfleusterau Dinas a Sir Abertawe. Hefyd, ymwelais â nifer o safleoedd gyda'r heddlu lleol ar faterion sy'n berthnasol, e.e. gyrru'n rhy gyflym, parcio, etc.

**Adran 7:Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog sylfaenol - £13,175 y flwyddyn.

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 14.05.14 |